# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

**DYDD** Mercher, 4 Mai 2016

**PRESENT: Councillor:** M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. Bull, Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol;
C. Owen, Cynorthwyydd Adfywio Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 18FED EBRILL 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 18fed Ebrill, 2016 yn gofnod cywir.**

**3. CRONFA DATBLYGU EIDDO MASNACHOL TRAWSNEWIDIADAU**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a fanylai ar gynigion gan yr Awdurdod i sicrhau cyllid o ddyraniad cyfalaf blynyddoedd ariannol 2016/2017 a 2017/2018 i ddarparu cymorth grant i ddatblygwyr eiddo masnachol er mwyn llenwi'r bwlch ariannol rhwng y costau adeiladu a gwerth yr eiddo masnachol wedi'i gwblhau ar y farchnad. Nod y cymhelliant a gynigid oedd rhoi hwb i'r cyflenwad o safleoedd busnes o safon uchel yn Sir Gaerfyrddin drwy gynnig cyllid tuag at unedau diwydiannol neu swyddfeydd o safon uchel.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r meini prawf a'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer darparu Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid.**

**4. CRONFA MENTER WLEDIG SIR GAERFYRDDIN**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a fanylai ar gynigion gan yr Awdurdod i sicrhau cyllid o ddyraniad cyfalaf blynyddoedd ariannol 2016/2017 a 2017/2018 i ddarparu cymorth grant i brosiectau cyfalaf ar gyfer mentrau gwledig y sir. Byddai'r Grant yn darparu cymorth i fentrau ac unig fasnachwyr ar gyfer datblygu safleoedd busnes newydd a phresennol, lle y byddai swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r prosiect.
Cynigiwyd y byddai Grantiau ar gyfer gwneud gwaith i'r eiddo ar gael i berchenogion y buddiant rhydd-ddaliad yn yr eiddo neu i ddalwyr prydles sydd i barhau am o leiaf bum mlynedd arall, nid 15 mlynedd fel y nodwyd yn yr adroddiad, sydd ar ôl ar adeg y cais.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newid uchod, gymeradwyo'r meini prawf a'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer darparu Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin.**

**5. CYMORTH ARIANNOL O GRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn**

**yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Capel Bethel | £2,124.00 |
| Eglwys yr Annibynwyr Bethania | £3,000.00 |
| Eglwys yr Holl Saint, Rhydaman | £3,000.00* |
| Gwasanaethau Cymorth a Gwybodaeth ynghylch Canser | £3,000.00 |
| Clwb Cychod Tywi | £500.00 |
| Capel Gellimanwydd | £3,000.00 |
| Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Llandybïe | £3,000.00 |

[*Yn amodol ar sicrhau'r holl gyllid perthnasol arall.]

______________________________ ______________________

**CHAIR** **DATE**